

Grant Cymorth Tai

Cyfeirlyfr Gwasanaethau

2024-25



## Cynnwys

Beth ydy'r Grant Cymorth Tai?	1
Cymorth yn gysylltiedig â thai	1
Sut i ymgeisio	1
Sut i wybod mwy	1
Cyfeirlyfr Gwasanaethau Cymorth	3
Cymorth Tai Generig	3
Pobl dro 55 oed	7
Anabledau Dysgu	9
Pobl Ifanc 16-25 mlwydd oes	11
Anghenion Cymhleth neu Niferus	12
Cam-drin Domestig (VAWDASV)	14

Tîm Commisiynu  
Adran Tai ac Eiddo  
Cyngor Gwynedd  
Swyddfa'r Cyngor  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1SH

[www.gwynedd.llyw.cymru/cefnogipobl](http://www.gwynedd.llyw.cymru/cefnogipobl)

## Beth ydy'r Grant Cymorth Tai?

Mae'r Grant Cymorth Tai yn cael ei dalu gan Lywodraeth Cymru i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i gomisiynu ac ariannu gwasanaethau a gweithgareddau sy'n atal pobl rhag mynd yn ddigartref, sefydlogi eu sefyllfa dai, neu'n helpu pobl a allai fod yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw.

Ni all y grant ariannu unrhyw Wasanaethau Statudol neu Ofal y mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i'w darparu, ac ni all ddarparu cymorth ariannol yn uniongyrchol i unigolion.

## Cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai

Cymorth sy'n gysylltiedig â thai yw'r cymorth sydd ar gael i bobl fregus i fynd i'r afael â'r problemau lluosog sy'n eu hwynebu, megis:

- Materion gyda dyledion a rheoli arian
- Rheoli tenantiaeth a chymorth i setlo a chynnal a chadw cartref
- Cymorth gyda chamddefnyddio sylweddau
- Cefnogaeth i ddioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Materion iechyd meddwl
- Helpu i ddeall, darllen a llenwi ffurflenni, llythyrau a biliau
- Cymorth i ddatblygu sgiliau byw ymarferol
- Cefnogaeth i chwilio am waith, hyfforddiant a chyflogaeth
- Cefnogaeth i ymuno â chymunedau a grwpiau lleol
- Cefnogaeth i gysylltu ag asiantaethau
- Helpu i ailadeiladu perthnasoedd
- Cefnogaeth i ddod o hyd i lety addas

## Sut i ymgeisio

Dylai ceisiadau am gymorth sy'n gysylltiedig â thai ddod drwy Dîm Un Pwynt Mynediad (SPOA) Cyngor Gwynedd, neu mewn rhai achosion yn uniongyrchol gyda'r darparwr cymorth. Gellir dod o hyd i fanylion am lwybr y cais sydd i'w dilyn ar gyfer prosiectau unigol isod.

Gallwch hunangyfeirio neu gallwch ofyn i rywun gyfeirio ar eich rhan. Bydd y Tîm SPOA yn derbyn atgyfeiriadau gan bob asiantaeth gan gynnwys Gwasanaethau Digartref, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Prawf, y GIG, yr Heddlu, meddygfeydd, Elusennau, darparwyr gwybodaeth fel CAB, teulu, ffrindiau neu gymdogion.

Ar gyfer prosiectau lle gwneir ceisiadau i'r Tîm SPOA dylid anfon atgyfeiriadau at [SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru](mailto:SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru), gallwch hefyd ffonio 01286 685100.

## Sut i wybod mwy

Mae rhagor o wybodaeth am y Grant Cymorth Tai a'r llwybr atgyfeirio drwy SPOA ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd: [www.gwynedd.llyw.cymru/cefnogipobl](http://www.gwynedd.llyw.cymru/cefnogipobl). Mae gwybodaeth am rannu data rhwng yr holl sefydliadau hefyd ar gael yno.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am eich cefnogaeth, neu os nad ydych yn hapus gyda'r gwasanaeth a gawsoch gan Gyngor Gwynedd neu unrhyw un o'r darparwyr isod yna cysylltwch â'r Tîm Comisiynu sy'n gyfrifol am y Grant Cymorth Tai:  
[GrantCymorthTai@gwynedd.llyw.cymru](mailto:GrantCymorthTai@gwynedd.llyw.cymru).

# Cyfeirlyfr Gwasanaethau Cymorth

## Cymorth Tai Generig

### Llety gyda Chymorth

#### Cyngor Gwynedd - Noddfa

*Mae mynediad i lety drwy Adran Digartref Cyngor Gwynedd.*



Llety dros dro yn Neiniolen ar gyfer y rhai sy'n ddigartref sydd angen cymorth i ddod o hyd i lety parhaol a symud yn llwyddiannus iddo. Mae'r adeilad yn cynnwys llety unigol gyda chyfleusterau 'ensuite' a mannau byw preifat ar gyfer unigolion, cyplau neu deuluoedd sy'n ddigartref. Mae darpariaeth cymorth ar gael ar y safle.

Mae gan Noddfa hefyd ystafell llawr gwaelod mynediad i'r anabl ar gyfer unigolyn neu gwpl.

#### Cyngor Gwynedd - Rhianfa

*Mae mynediad i lety drwy Adran Digartref Cyngor Gwynedd.*



Llety dros dro yng Nghorris ar gyfer y rhai sy'n ddigartref sydd angen cymorth i ddod o hyd i lety parhaol a symud yn llwyddiannus iddo. Mae'r adeilad yn cynnwys llety unigol gyda chyfleusterau 'ensuite' a mannau byw preifat ar gyfer unigolion, cyplau neu deuluoedd sy'n ddigartref. Mae darpariaeth cymorth ar gael ar y safle.

#### Gorwel - Llys Seion

*Mae mynediad at y gwasanaeth trwy SPOA:*

[SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru](mailto:SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru)



Nod Prosiect Cyswllt Digartrefedd Gwynedd yw darparu gwasanaeth tai â chymorth o ansawdd uchel i bobl seagl a theuluoedd 16 oed a hŷn, gydag anghenion cymorth lluosog. Gallai hyn gynnwys digartrefedd, camddefnyddio sylweddau, cefndir o drosedd, iechyd meddwl, a phroblemau anabledd dysgu lefel isel. Mae gan y prosiect yn Llys Seion chwe fflat ym Mhwllheli sydd ar gael i unigolion a theuluoedd digartref lle mae cymorth a chyngor ar gyfer byw'n annibynnol ar gael.

## Tai Gogledd Cymru - St Mary's

Mae mynediad at y gwasanaeth trwy SPOA:

[SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru](mailto:SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru)



Mae St Mary's yn Hostel sy'n darparu llety i 13 o bobl ddigartref mewn 2 adeilad ym Mangor ac fe'i rheolir gan dîm llawn o staff cymorth ar sail 24/7 awr.

Ar ôl symud i mewn, mae trigolion yn derbyn sesiwn sefydlu i'r Hostel ac esboniad o'r Cytundeb Trwydded. Bydd asesiad yn cael ei gwblhau fydd yn llywio Cynllun Cefnogi wedi'i deilwra gyda phreswylwyr sy'n diwallu eu hanghenion penodol ac yn cael ei adolygu wrth i anghenion newid. Bydd aelod o staff yn cwrdd â thrigolion i drafod a helpu gyda'r Cynllun Cymorth.

Mae gan bawb ystafell wely sengl a chyfleusterau ystafell ymolchi a rennir. Nid yw prydau bwyd yn cael eu darparu, ond mae cegin wedi'i dodrefnu'n llawn lle gall preswylwyr baratoi eu prydau bwyd eu hunain.

## Tai Gogledd Cymru - Pendinas

Mae mynediad at y gwasanaeth trwy SPOA:

[SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru](mailto:SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru)



Mae Pendinas yn hostel ym Mangor sy'n darparu cymorth a llety i wyth o bobl ddigartref bregus sydd ag anghenion cymhleth.

Bydd pobl sy'n addas i dderbyn gwasanaeth yn cael cyflwyniad i'r Hostel ac esboniad o'u Cytundeb Trwydded.

Bydd asesiad yn cael ei gwblhau a fydd yn helpu i lywio Cynllun Cymorth wedi'i deilwra gyda phreswylwyr sy'n diwallu eu hanghenion penodol ac yn cael ei adolygu wrth i anghenion newid. Bydd aelod o staff yn cwrdd â thrigolion i drafod a helpu gyda'r Cynllun Cymorth. Mae gan bawb ystafell wely sengl a chyfleusterau ystafell ymolchi a rennir. Nid yw prydau bwyd yn cael eu darparu, ond mae cegin wedi'i dodrefnu'n llawn lle gall preswylwyr baratoi eu prydau bwyd eu hunain.

## Tai Gogledd Cymru - Eiddo ar Wasgar

Mae mynediad at y gwasanaeth trwy SPOA:

[SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru](mailto:SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru)



Darparu llety i bobl fregus sydd angen cefnogaeth, ar draws Gwynedd. Bydd preswylwyr yn gallu aros yn un o'n fflatiau neu dai am hyd at ddwy flynedd a byddant yn derbyn cefnogaeth, am gyfnod byr, ar ôl hynny tuag at fyw'n annibynnol.

Ein cam cyntaf yw esbonio'r hyn a wnawn a helpu i benderfynu a yw'r prosiect yn iawn i bob ymgeisydd. Os cynigir llety bydd Cynllun Cymorth Personol yn cael ei ysgrifennu gyda phob cleient a bydd yn cael ei adolygu a'i ddiwygio wrth i anghenion newid. Bydd staff Tai Gogledd Cymru yn ymweld â chleientiaid i wneud hyn, gan helpu i'w paratoi ar gyfer mwy o annibyniaeth.

## Cefnogaeth fel y bo'r angen

<p><b>Gorwel - Cefnogaeth fel y bo'r angen</b></p> <p><i>Mae mynediad at y gwasanaeth trwy SPOA:</i> <a href="mailto:SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru">SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru</a></p> <p>Nod Prosiect Cyswllt Digartrefedd Gwynedd yw darparu gwasanaeth tai â chymorth o ansawdd uchel i bobl sengl a theuluoedd 16 oed a hŷn, gydag anghenion cymorth lluosog. Gallai hyn gynnwys digartrefedd, camddefnyddio sylweddau, cefndir o drosedd, iechyd meddwl, a phroblemau anabledd dysgu lefel isel. Mae'r Cynllun Cymorth Symudol yn wasanaeth ledled Gwynedd i helpu teuluoedd ac unigolion i fyw yn eu cartrefi yn annibynnol.</p>	
<p><b>Cyngor Gwynedd - Cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai</b></p> <p><i>Mae mynediad at y gwasanaeth trwy SPOA:</i> <a href="mailto:SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru">SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru</a></p> <p>Cefnogaeth i aelwydydd i sefydlu a chynnal eu tenantiaeth gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cartrefu dros dro gan y Cyngor o ganlyniad i ddigartrefedd.</p>	
<p><b>Shelter Cymru - Cefnogaeth fel y bo'r angen</b></p> <p><i>Mae mynediad at y gwasanaeth trwy SPOA:</i> <a href="mailto:SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru">SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru</a></p> <p>Darparu gwasanaethau cyngor a chymorth annibynnol ledled Gwynedd, i denantiaid a pherchnogion tai sydd dan fgythiad o ddigartrefedd.</p>	
<p><b>Shelter Cymru - Cyngor ar Ddyledion</b></p> <p><i>Mae mynediad at y gwasanaeth trwy SPOA:</i> <a href="mailto:SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru">SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru</a></p> <p>Darparu cyngor annibynnol ar ddyledion ac arian ledled Gwynedd, i denantiaid a pherchnogion tai sydd dan fgythiad o ddigartrefedd.</p>	
<p><b>Cyngor ar Bopeth Gwynedd</b></p> <p><i>Mae mynediad i'r gwasanaeth yn uniongyrchol gyda'r darparwr.</i> ☎ 0808 250 5700 <a href="http://www.cabgwynedd.wales/contact">www.cabgwynedd.wales/contact</a></p> <p>Cyngor cyfrinachol ac annibynnol am ddim ar ystod eang o faterion, yn enwedig budd-daliadau, dyled ac arian. Am help i ddarganfod pa fudd-daliadau y gallech fod â hawl i'w ffonio am ddim 0808 250 5700, neu ewch i <a href="http://www.cabgwynedd.wales/contact">www.cabgwynedd.wales/contact</a> i ofyn i ni eich ffonio o fewn dau ddiwrnod gwaith i drefnu apwyntiad. Swyddfeydd ym Mangor, Caernarfon, Dolgellau a Phwllheli.</p>	

Adra - Cymorth Tai



*Mae mynediad at y gwasanaeth trwy SPOA:*  
[SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru](mailto:SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru)

Gwasanaeth sy'n ceisio rhoi cymorth i drigolion bregus Adra mewn angen. Ein nod yw helpu unigolion fel y gallant gynnal eu llety trwy ddatblygu eu sgiliau bywyd. Nod y gwasanaeth yw sicrhau bod ein tenantiaid yn cael eu trin ag urddas a pharch, a bydd ganddynt annibyniaeth, dewis a rheolaeth dros eu bywydau eu hunain.



### Adra - Tai Cysgodol



Mae mynediad i'r gwasanaeth yn uniongyrchol gyda'r darparwr.

Adra, Tŷ Coch, Parc Menai, Bangor. LL57 4BL. ☎ 0300 123 8084

Mae gennym 8 safle tai gwarchod ar draws Arfon a Meirionnydd ar gyfer y rhai dros 55 oed neu sydd ag anabledd. Mae gan bob safle Swyddog i helpu ein trigolion i fyw'n annibynnol.

Gwasanaethau a gynigir:

- cysylltu hyd at 3 gwaith yr wythnos, yn dibynnu ar argaeledd staff. Gall y rhain fod yn gymysgedd o alwadau ffôn ac ymweliadau
- helpu i wneud atgyfeiriadau at asiantaethau fel Age Cymru, Cyngor ar Bopeth, Tîm Addasu a Gwasanaethau Cymdeithasol
- cynllun cymorth personol yn seiliedig ar eich anghenion
- gosod system argyfwng 24 awr
- rydym yn aml yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol, weithiau ar y safle ac weithiau allan er mwyn helpu i drechu unigrwydd.

Gallwn hefyd gynnig y Gwasanaethau Tai â Chymorth i gwsmeriaid sy'n byw mewn cartrefi nad ydynt yn gartrefi Tai â Chymorth. Ni all ein Swyddog Tai â Chymorth gyflawni dyletswyddau fel siopa, coginio, glanhau a gofal personol.

### Age Cymru - Cynllun Siopa



Mae mynediad i'r gwasanaeth yn uniongyrchol gyda'r darparwr.

Age Cymru Gwynedd a Môn, Y Cartref, Bontnewydd. LL54 7UW

☎ 01286 677711

Wrth i ni fynd yn hŷn gall siopa am fwydydd fod yn anodd ei reoli gennych chi'ch hun, gall hyn fod oherwydd problemau symudedd. Gall cyrraedd y siopau a thrin bagiau trwm yn gorfforol fod yn dasg amhosib heb gymorth.

Gall ein tîm o ofalwyr proffesiynol hyfforddedig fynd â chi i siopa neu byddent yn hapus i fynd i siopa i chi pe na baech yn gallu. Gallwn helpu i gario bagiau i'r siop ac oddi yno i'ch cartref eich hun a gallwn hefyd ddarparu'r cludiant. Gallwn hyd yn oed eu cadw i chi unwaith yn ôl yn y tŷ.

### Grŵp Cynefin



Mae mynediad i'r gwasanaeth yn uniongyrchol gyda'r darparwr.

Grŵp Cynefin, Tŷ Silyn, Y Sgwâr, Penygroes, Caernarfon LL54 6LY

☎ 0300 1112 122

Darparu a rheoli ystod eang o dai, gan gynnwys rhai â llinellau brys. Rydym hefyd yn darparu cymorth i bobl gynnal eu tenantiaethau a byw'n annibynnol gan gynnwys Tai Gofal Ychwanegol.

## Tai Gogledd Cymru - Gofal Ychwanegol

*Mae mynediad i'r gwasanaeth yn uniongyrchol gyda'r darparwr.*

Tai Gogledd Cymru, Plas Blodwel, Cyffordd Llandudno, LL31 9HL. ☎: 01492 572727



Mae'r cynllun ym Mangor wedi'i anelu at bobl dros 55 oed ac sydd ag anghenion gofal a thai. Mae'n gyfle gwych i elwa o ffordd o fyw annibynnol a diogel, wedi'i ategu gan ofal a chymorth sy'n hyblyg ac wedi'i deilwra i'ch anghenion. Mae hyblygrwydd llwyr yn y gofal rydym yn ei ddarparu. Rydym yn annog preswylwyr i fyw bywyd llawn a gweithgar a bydd cynllun gofal a chymorth personol yn cael ei deilwra i'ch helpu i fyw mor annibynnol â phosibl yn y ffordd rydych yn dewis. Mae'r tîm gofal profiadol ar y safle 24 awr y dydd ac mae cyswllt larwm cymunedol gyda chefnogaeth 24 awr ar gael hefyd.

## Clwyd Alyn - Cysgodol

*Mae mynediad i'r gwasanaeth yn uniongyrchol gyda'r darparwr.*



Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, 72 Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych. LL17 0JD. ☎: 0800 1835757

Mae cartrefi ym Mhentref Pwyleg Penrhos ar gyfer pobl 55 oed a throsodd, sy'n darparu ar gyfer preswylwyr o'r gymuned Bwylaidd yn y DU yn ogystal â phobl o'r ardal leol. Er mwyn eich helpu i fwynhau bywyd eich ffordd a chadw'ch annibyniaeth, mae gennym staff wrth law i roi cymorth i chi os oes angen ychydig o help ychwanegol arnoch wrth i'ch anghenion newid. Rydym yn annog ein trigolion i gymryd rhan weithredol mewn digwyddiadau sy'n cael eu trefnu ar ac oddi ar y safle. Mae'r rhain yn cynnwys bingo, cadw'n heini, nofio, cyngherddau, ymweliadau sinema, teithiau siopa, digwyddiadau cenedlaethol a chrefyddol arbennig yng nghalendr Gwlad Pwyl.

## Cyngor Gwynedd - Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

*Mae mynediad at wasanaeth drwy Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd.*



Ymhlith y gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai yng Nghyngor Gwynedd mae Tai â Chymorth; Lleoliad Oedolion, Cymorth Symudol a Chefnogaeth Iechyd Meddwl

## Anableddau Dysgu

<p><b>Anheddau</b></p> <p><i>Mae mynediad at wasanaeth drwy Adran Oedolion, lechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd.</i></p> <p>Darparu cefnogaeth 24 awr i oedolion ag anableddau dysgu gartref, yn y gweithle ac yn ystod gweithgareddau hamdden yng Ngwynedd. Mae Anheddau yn sefydliad elusennol dielw sy'n grymuso oedolion ag anghenion cymorth i fyw bywydau llawn yng Ngogledd Orllewin Cymru. Fe'i sefydlwyd fel darparwr gwasanaethau cymorth i gefnogi pobl i wneud y mwyaf o'u potensial yn eu cymunedau ac o ganlyniad mae wedi datblygu cyfoeth o brofiad dros ddeng mlynedd ar hugain o weithio yn y maes hwn.</p>	
<p><b>Antur Waunfawr</b></p> <p><i>Mae mynediad at wasanaeth drwy Adran Oedolion, lechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd.</i></p> <p>Mae'n darparu cefnogaeth 24 awr, gartref, yn y gweithle ac yn ystod gweithgareddau lechyd a Lles i oedolion ag anableddau dysgu yn Arfon. Darparu gofal, cefnogaeth weithredol, hyfforddiant a chyfleoedd gwaith ystyrlon - yn effeithiol ac yn gymesur i ddiwallu anghenion oedolion ag anableddau dysgu yn ogystal â phobl dan anfantais yn lleol.</p>	 <p>Antur Waunfawr</p>
<p><b>Cartrefi Cymru</b></p> <p><i>Mae mynediad at wasanaeth drwy Adran Oedolion, lechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd.</i></p> <p>Ein prwpas yw darparu gwasanaeth gofal a chymorth personol sy'n seiliedig ar anghenion unigol arbenigol i bobl fyw bywyd da a gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Rydym yn gwneud hyn drwy ddarparu'r gwasanaethau canlynol: Byw â Chymorth 24 awr, Cymorth Sesiynol, Gofal Cartref a Thai Gofal Ychwanegol, Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai.</p>	
<p><b>Cyngor Gwynedd</b></p> <p><i>Mae mynediad at wasanaeth drwy Adran Oedolion, lechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd.</i></p> <p>Ymhlith y gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai yng Nghyngor Gwynedd mae Tai â Chymorth; Lleoliad Oedolion, Cymorth Symudol a Chefnogaeth lechyd Meddwl</p>	

## Cymdeithas Cyngori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru



*Mae mynediad at wasanaeth drwy Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd.*

Cymdeithas Cyngori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru, 14a Llys Yr Onnen, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL55 4DF ☎ 01248 670852

Darparu gwasanaeth cyngor ac eiriolaeth ar faterion fel hawliau sifil, tai, gwasanaethau dydd, cyflogaeth, budd-daliadau ac ati i bobl ag anableddau dysgu, rhieni, gofalwyr, darparwyr gwasanaethau neu unrhyw un sy'n credu y gallwn ni helpu.

## Seren



*Mae mynediad at wasanaeth drwy Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd.*

Darparu cefnogaeth 24 awr i oedolion ag anableddau dysgu gartref, yn y gweithle ac yn ystod gweithgareddau hamdden yng Ngwynedd. Seren yw un o fentrau cymdeithasol mwyaf blaenllaw Cymru, a sefydlwyd ym 1996 gyda'r prif nod o gynnig cymorth proffesiynol i bobl ag anableddau dysgu yn ne Gwynedd.

## Pobl Ifanc 16-25 oed

### Cyfle - Cefnogaeth fel y bo'r angen

Mae mynediad at y gwasanaeth trwy SPOA:  
[SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru](mailto:SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru)



Rydym yn darparu llety â chymorth i bobl ifanc yng Ngorllewin Gwynedd, a Chymorth fel y bo'r angen. Ein nod yw atal digartrefedd drwy gefnogi pobl ifanc i ddatblygu'r gallu, annibyniaeth, sgiliau a hyder i gael mynediad a/neu gynnal cartref sefydlog ac addas.

### GISDA - Llety Hostel / Llety â Chymorth / Cefnogaeth Symudol / Atal Digartref

Mae mynediad at y gwasanaeth trwy SPOA:  
[SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru](mailto:SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru)



Gellir cael mynediad uniongyrchol at wasanaethau Galw Heibio gyda'r Darparwr trwy wefan GISDA.

Rydym yn darparu cefnogaeth a llety i bobl ifanc ddigartref a bregus gan gynnwys teuluoedd ifanc ar draws Gwynedd. Mae gennym hefyd brosiectau ychwanegol sy'n cefnogi ac yn cyfrannu at nodau ac amcanion yr elusen.

## Anghenion Cymhleth neu Lluosog

Adferiad - Tai â Chymorth / Cymorth Symudol /  
Floating Support / Ty'n Rodyn / Tŷ Adferiad



Mae mynediad at y gwasanaeth trwy SPOA: [SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru](mailto:SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru)

Cymorth Symudol a Llety â Chymorth Gwynedd: Mae'r Gwasanaeth yn cynnig gwasanaeth cymorth arnofiol sy'n gysylltiedig â thenantiaeth a gwasanaeth llety â chymorth i unigolion ag anghenion sy'n cyd-ddigwydd a chymhleth, gan gynnwys dibyniaeth, iechyd meddwl, trais domestig, ac ymddygiad troseddol.

Mae'r cymorth yn cynnwys, cymorth tenantiaeth, sgiliau byw, gwytnwch a lles, cyngor ariannol, cymorth therapiwtig, ac atgyfeiriadau ymlaen at asiantaethau eraill. Mae'r timau staff yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill gan gynnwys y tîm iechyd meddwl cymunedol (CMHT), Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, y gwasanaeth prawf, timau opsiynau tai, y gwasanaeth cyngori ariannol a llawer o rai eraill.

Mae Ty'n Rodyn yn wasanaeth llety â chymorth 8 ystafell wely ar gyfer dynion ag anghenion cyd-ddigwydd a chymhleth, gan gynnwys dibyniaeth, iechyd meddwl ac ymddygiad troseddol. Mae'r prosiect yn cynnig cefnogaeth 24 awr gan dîm medrus a phrofiadol o staff. Mae'r cymorth yn cynnwys, cymorth sy'n gysylltiedig â thenantiaeth, sgiliau byw, gwytnwch a lles a chyfeirio at asiantaethau eraill fel y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau (SMS).

Mae Tŷ Adferiad yn llety â chymorth 6 gwely ym Mhorthmadog, ar gyfer menywod sy'n dychwelyd i Wynedd o'r carchar a phobl sy'n cysgu ar y stryd. Maent yn darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar drawma i breswylwyr sy'n wynebu ystod o anghenion cymhleth a chyd-ddigwyddiol. Mae hwn yn brosiect 24 awr. Nod y prosiect yw galluogi menywod i fynd i'r afael â'u problemau a symud ymlaen i'w llety eu hunain.

Tai Gogledd Cymru - Allgymorth Digartref

Mae mynediad i'r gwasanaeth yn uniongyrchol gyda'r  
darparwr drwy 01492 572727 neu e-bost:

[Supported.Housing@nwha.org.uk](mailto:Supported.Housing@nwha.org.uk)



Mae ein gwasanaeth Allgymorth ac Ailsefydlu yn helpu pobl fregus drwy ddarparu cyngor ar dai ac adsefydlu yng Ngwynedd. Rydym yn cefnogi pobl sydd ag anghenion cymhleth ac yn gweithio gyda digartref ar y stryd sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i'w tenantiaeth a'i gynnal. Rydym yn gweithio o amgylch eich anghenion cymorth a byddwn yn adolygu'r hyn sydd ei angen arnoch yn rheolaidd i sicrhau y byddwch yn gallu cynnal eich tenantiaeth.

Rydym yn darparu cefnogaeth a chynngor ac mae gennym bresenoldeb rheolaidd mewn galw heibio ac rydym yn cyfeirio partneriaid at fanciau bwyd lleol. Gellir darparu darpariaethau brys yn dibynnu ar amgylchiadau.

NACRO - Prosiect Doorstop / Tai â Chymorth /  
Cymorth Symudol / Gwasanaethau Galw Heibio



Mae mynediad at y gwasanaeth trwy SPOA:  
[SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru](mailto:SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru)

Gellir cael mynediad uniongyrchol at wasanaethau Galw Heibio gyda'r Darparwr  
drwy 64 - 68 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd, LL57 1NR [emma.jones@nacro.org.uk](mailto:emma.jones@nacro.org.uk)  
☎ 07483030196 / 07483030343

Mae Nacro yn elusen cyfiawnder cymdeithasol sy'n gweithredu ar draws Gwynedd sy'n darparu gwasanaethau i bobl ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref i gael y cymorth sydd ei angen arnynt i adeiladu dyfodol cadarnhaol a bywydau annibynnol.

Rydym yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys tai â chymorth sy'n rhoi cartref i bobl sydd â hanes o droseddau neu gamddefnyddio sylweddau a chymorth wedi'i deilwra i bob unigolyn i'w helpu i gynnal tenantiaeth a symud ymlaen i fyw'n annibynnol. Mae ein gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen yn helpu pobl i aros yn y cartrefi y maent yn ddynt trwy ddarparu cymorth i gynnal tenantiaeth a gofalu am gartref ac mae'n gwasanaethau galw heibio yn rhoi arweiniad ar y materion y maent yn eu hwynebu a chymorth i lywio i'r gwasanaeth cywir i ddiwallu eu hanghenion.

Gorwel - Cymorth arnofio / Anghenion Cymhleth



Mae mynediad at y gwasanaeth trwy SPOA:  
[SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru](mailto:SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru)

Cymorth arnofiol i'r bobl hynny sydd ag anghenion cymorth lluosog (e.e. iechyd meddwl, anabledd dysgu lefel isel, pobl sy'n gadael carchar, yn aml yn datgysylltu â darpariaeth cymorth) yng Ngwynedd.

Cyngor Gwynedd - Tîm Digartrefedd Amlddisgyblaethol



Mae mynediad at gymorth yn uniongyrchol i'r tîm drwy Adran Ddigartrefedd Cyngor Gwynedd a/neu'n uniongyrchol drwy wasanaethau cyhoeddus statudol (Iechyd, Carchardai, Prawf a Gofal Cymdeithasol).

Mae'r Tîm yn cynnwys swyddogion dynodedig sydd â llwythi achos unigol sy'n atal ac yn lliniaru digartrefedd i'r rhai ag anghenion cymhleth a/neu aciwt sy'n eu rhoi mewn mwy o berygl o gael sefyllfa dai anweddol.

Ailsefydlu - 2 Weithiwr Achos pwrpasol i atal a lleddfu digartrefedd i'r rhai yn y ddalfa gan ddarparu dull sy'n seiliedig ar drawma a holistig wrth weithio mewn modd amlasiantaethol.

Iechyd Meddwl - Gweithiwr Achos penodedig i weithio'n agos ochr yn ochr ag Iechyd Meddwl i sicrhau dull cydgysylltiedig o sicrhau bod gan y rhai sy'n ddigartref lety a chymorth. Unigolion sy'n cael eu cefnogi yw'r rhai sydd â gofynion lefel uwch, cymhleth o ran Iechyd Meddwl.

Camddefnyddio Sylweddau - gweithiwr ymroddedig i'r rhai sy'n wynebu digartrefedd i sicrhau bod cymorth ar gael drwy'r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau mewn modd amserol i atal neu lleddfu digartrefedd.

## Cam-drin Domestig (VAWDASV)

### Gorwel - Llety Lloches / Cefnogaeth Symudol



Mae mynediad at wasanaeth yn uniongyrchol gyda'r darparwr drwy: Gorwel - Gwasanaeth Cam-drin Domestig [gorwel@gorwel.org](mailto:gorwel@gorwel.org)  
☎ 0300 111 2121

Mae'n cynnig lloches (menywod yn unig) a gwasanaethau cymorth arnofiol i fenywod, dynion a'u plant, sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig yng Ngwynedd.

### Stori - Tai â chymorth



Mae mynediad at y gwasanaeth trwy SPOA:  
[SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru](mailto:SPOAAdranTai@gwynedd.llyw.cymru)

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cymorth tai sy'n seiliedig ar lety i fenywod bregus a'u plant, y mae cam-drin domestig yn effeithio ar lawer ohonynt, y mae angen cymorth arnynt i gyflawni, cynnal neu fanteisio i'r eithaf ar eu cyfle i fyw'n ddiogel, yn annibynnol ac yn llwyddiannus yn y gymuned.